**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf /Our ref: LF/CS/0186/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Chwefror 2014

Annwyl Christine,

**Bil Tai (Cymru) - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Cais am Ragor o Wybodaeth yn dilyn Cyfarfod 6 Chwefror**

Diolch am fy ngwahodd i gyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 6 Chwefror 2014 er mwyn trafod Bil Tai (Cymru).

Addewais y byddwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i aelodau'r Pwyllgor ynghylch nifer o faterion. Gwnaethoch ysgrifennu ataf ar 11 Chwefror, ar ôl cyfarfod y Pwyllgor, yn gofyn am ragor o eglurhad ynghylch nifer o bwyntiau ychwanegol na lwyddwyd i fynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfarfod. Dyma'r pwyntiau:

1. a allai darpariaethau gael eu cynnwys yn y Bil a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i awdurdodau a/neu adrannau perthnasol rannu data er mwyn pennu landlordiaid o fewn y sector rhentu preifat, ac er mwyn ceisio canfod achosion o dwyll o safbwynt y Budd-dal Tai.

2. Pa gamau pellach y byddai modd eu cymryd er mwyn gwella safonau diogelwch o fewn y sector rhentu preifat, yn arbennig diogelwch o ran trydan a nwy, gan dderbyn cyfyngiadau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o safbwynt iechyd a diogelwch, a sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yn y tymor hwy;

3. gofynion presennol mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael i garcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar ac ar ôl hynny er mwyn bodloni eu hanghenion o ran tai, ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu bodloni;

4. o safbwynt yr uchod, unrhyw feysydd i'w gwella a bennwyd gan y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion, a sut y bydd y Bil yn cyfrannu at gyflawni'r rhain;

5. a yw'n rhesymol galluogi awdurdod lleol i waredu ei ddyletswyddau o safbwynt digartrefedd mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n debygol o fod yn agored i niwed gan eu bod yn "methu'n afresymol i gydweithredu", ac yn arbennig pan nad yw eu hymddygiad o anghenraid yn effeithio ar allu'r awdurdod i barhau i fodloni ei ddyletswyddau o dan Ran 2;

6. manylion ynghylch y polisi newydd ar rent tai cymdeithasol, sut y mae'n cyd-fynd â'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ar ei ffurf bresennol, a fydd canllawiau o dan y system renti bresennol yn statudol a sut y caiff y system ei gorfodi;

7. amseriad y Cod Ymarfer drafft o dan adran 28, ac yn arbennig a fydd yr Aelodau'n gweld y Cod drafft cyn y bydd y Bil yn cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad;

8. i ba raddau y mae'r cynigion mewn perthynas ag aelwydydd bwriadol ddigartref sy'n cynnwys plant yn bodloni'r rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'n bleser gen i gyflwyno gwybodaeth mewn ymateb i'ch cais. Byddaf yn ymdrin â phob pwynt yn unigol:

1. Rwyf wrthi'n ystyried rhannu data mewn perthynas â gwybodaeth am y budd-dal tai a'r dreth gyngor. Mae Adran 237 o Ddeddf Tai 2004 yn mynd i'r afael â rhannu gwybodaeth am Dai Amlfeddiannaeth a chynlluniau trwyddedu detholus, ac rydym yn ystyried hyn o fewn cyd-destun darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth at ddibenion y cynllun cofrestru a thrwyddedu arfaethedig.

2. Bydd yn rhaid i'r Cod Ymarfer y bydd gofyn i landlordiaid ac asiantwyr rheoli gydymffurfio ag ef mewn perthynas â'n cynigion i reoleiddio'r sector rhentu preifat gynnwys argymhellion ynghylch arfer da o ran cyflwr eiddo a diogelwch sydd ynghlwm wrth y system Graddio Tai, Iechyd a Diogelwch. Dyma'r safon gyffredinol sy'n berthnasol i iechyd a diogelwch holl feddianwyr eiddo, beth bynnag y bo'r ddeiliadaeth.

   Bydd y cod yn mynd i'r afael â gweithgareddau rheoli a rhwymedigaethau cyfreithiol gan fwyaf. Eto i gyd, gallai hefyd gynnwys cyngor ar wiriadau rheolaidd ynghylch diogelwch nwy a thrydan ac ar sicrhau'r rhagofalon tân cywir.

   Mae rheoli da'n golygu cadw eiddo'n ddiogel ac mewn cyflwr da ac wrth i landlordiaid ddod yn fwy ymwybodol o'u rhwymedigaethau disgwylir i safonau o ran cyflwr a diogelwch eiddo wella ar draws y sector cyfan.

3. Amgaeaf nodyn gan y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion yn **Atodiad A** sy'n ateb cwestiynau 3 a 4 uchod. Cafodd y nodyn ei lunio gan y Grŵp ac mae'n adlewyrchu safbwyntiau a barn ei aelodau. Dylai'r Pwyllgor ddeall nad yw'r safbwyntiau hyn, o anghenraid, yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

4. Mae pwynt 3 uchod yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn. Mae'r nodyn gan y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion yn amlinellu materion sydd wedi'u hystyried a'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn ategu'r Bil a gwella trefniadau ar gyfer bodloni anghenion tai carcharorion, os ydynt yn agored i niwed ai peidio.

5. Ein bwriad yw sicrhau bod y trothwy o safbwynt defnyddio'r ddarpariaeth ar gyfer "methiant afresymol i gydweithredu" yn uchel, ac na chaiff ond ei defnyddio lle ceir tystiolaeth glir nad oedd methiant yr ymgeisydd i gydweithredu yn gysylltiedig â'r ffaith ei fod yn agored i niwed. Ni fyddai'r ddarpariaeth hon ond yn berthnasol lle y

byddai'r methiant i gydweithredu'n cael peth effaith sylweddol ar allu'r awdurdod lleol i fodloni ei ddyletswyddau o dan Ran 2, hy atal neu liniaru digartrefedd. Bydd Cod Canllawiau statudol yn ategu'r ddeddfwriaeth ac yn gwneud hyn yn glir iawn. Pan fydd amgylchiadau ymgeisydd yn newid bydd modd iddo gyflwyno cais newydd. Gallai hyn ddigwydd os bydd sefyllfa ymgeisydd yn gwaethygu. Rydym wrthi'n ymgynghori â'n cyfreithwyr er mwyn sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer y bwriad hwn.

6. Hoffwn nodi bod cwestiwn 6 uchod a'r ymateb isod yn adlewyrchu'r geiriad a ddefnyddiwyd yn nhrawsgrifiad y cyfarfod o'r Pwyllgor ar 6 Chwefror gan yr ymddengys y gallai mân gamgymeriadau teipograffyddol fod wedi'u cynnwys ym mhwynt bwled 6 yn y llythyr dyddiedig 11 Chwefror.

**Polisi newydd ar gyfer rhenti tai cymdeithasol**:

Mae'r polisi newydd ar gyfer rhenti tai cymdeithasol (polisi rhent newydd) yn darparu fframwaith polisi cydlynus a chyson ar gyfer pob landlord cymdeithasol ac mae'n adlewyrchu math, maint, lleoliad ac ansawdd stoc tai pob landlord. Cafodd y polisi rhent newydd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013 i'w weithredu gan gymdeithasau tai ym mis Ebrill 2014 a chan yr un ar ddeg o awdurdodau tai lleol sy'n cadw stoc ym mis Ebrill 2015, ar ôl gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

Caiff copi o'r polisi rhent newydd a'r tablau cysylltiedig eu hamgáu (yn **Atodiad B**) er eich gwybodaeth.

**Cyswllt â gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai**:

O dan y trefniadau presennol caiff rhenti'r awdurdodau tai lleol eu pennu'n unol â system rhent awgrymedig yr awdurdodau tai lleol sy'n rhan o'r fformiwla cymhleth a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer cyfrifo Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Unwaith y bydd awdurdodau tai lleol yn gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai daw system rhent awgrymedig yr awdurdodau tai lleol i ben yn awtomatig. O ganlyniad ni fydd unrhyw bolisi na fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pennu rhenti'r awdurdodau tai lleol.

Y cysylltiad rhwng y polisi rhent newydd a gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, felly, yw y bydd modd i awdurdodau tai lleol weithredu'r polisi rhent newydd cyn gynted ag y byddant wedi gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

**Canllawiau Statudol:**

Er mwyn sicrhau bod modd i Weinidogion Cymru arfer rheolaeth dros lefelau rhent awdurdodau tai lleol a chyflawni eu rhwymedigaethau o fewn y Polisi Cyllid Datganoledig mae angen polisi a fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer pennu rhenti awdurdodau tai lleol. Ceir darpariaeth ar gyfer hyn o dan Adrannau 94 i 96 o'r Bil Tai lle y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu "safon renti", a fydd yn destun proses graffu, ac yn cyhoeddi'r polisi rhent newydd (yn Nogfen 2) fel canllawiau statudol a fydd yn helaethu'r "safon renti".

**Gorfodaeth:**

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod tai lleol gydymffurfio â'r safon renti a Swyddogion Adran 151 pob awdurdod tai lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth. Ceir gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151[1] yn y troednodyn isod.

[1] *Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol drefnu bod eu materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol ac enwebu un swyddog i dderbyn cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Trysorydd yr awdurdod lleol yw'r swyddog Adran 151 gan amlaf ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfrifydd cymwys sy'n perthyn i un o'r cyrff cyfrifyddiaeth siartredig*

Rôl Llywodraeth Cymru fydd monitro cydymffurfiaeth barhaus â'r safon renti.

7. Ni fydd y Cod Ymarfer, a gaiff ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, ar gael hyd nes y bydd Bil Tai (Cymru) wedi cwblhau ei daith drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

8. Mae confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ymrwymiad cyffredinol i egwyddorion a ddylai fod yn sail i ddull gwladwriaeth o lunio deddfwriaeth mewn perthynas â phlant. Mae'r Bil yn cynnwys aelwydydd â phlant yn y categorïau sydd ag angen blaenoriaethol o safbwynt cymorth â digartrefedd (adran 55(1)(b)). Mae plant 16 ac 17 oed hefyd wedi'u cynnwys (adran 55(1)(f)). Yn ogystal, mae aelwydydd â phlant, lle y mae'r ymgeisydd yn 'fwriadol ddigartref' (adran 58(3)) wedi'u diogelu'n fwy. Os na all aelwyd â phlant dderbyn cymorth o dan y darpariaethau sy'n gysylltiedig â digartrefedd, bydd Deddf Plant 1989, deddfwriaeth arall ym maes tai a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sicrhau bod yr hawliau hyn wedi'u diogelu'n llwyr mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Mae Adran 79 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth benodol ynghylch cydweithredu rhwng adrannau tai ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol os bydd aelwyd yn cynnwys plentyn ond na fydd o anghenraid yn derbyn cymorth o dan ddarpariaethau ar gyfer digartrefedd.

Hyderaf y bydd fy ymateb i gais y Pwyllgor yn cynorthwyo'r Aelodau i graffu ar Fil Tai (Cymru). Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os bydd gennych chi neu unrhyw Aelod ymholiadau eraill neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw agwedd ar y maes hwn.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

---

*a chydnabyddedig. Mae gan y swyddog Adran 151 nifer o ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i adrodd ar unrhyw weithgarwch ariannol anghyfreithlon gan yr awdurdod neu fethiant i bennu cyllideb gytbwys neu i gadw o'i mewn. Mae gan y swyddog Adran 151 nifer o bwerau statudol yn ogystal ar gyfer cyflawni'r rôl hon, fel yr hawl i fynnu bod yr awdurdod lleol yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol ar gyfer cost archwilio mewnol.*

**Y GWEITHGOR LLETY AC AILSEFYDLU CARCHARORION**

**NODYN AR GYFER Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL**

Cyflwyniad

Cafodd y *Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion* ei sefydlu gan y Gweinidog Tai ac Adfywio i roi cyngor iddo am faterion sy'n gysylltiedig â chynnig yn y ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd i newid statws angen blaenoriaethol cyn garcharorion. Gofynnwyd iddo hefyd ddatblygu trefniadau effeithiol i sicrhau bod carcharorion yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar wasanaethau cymorth a/neu ddod o hyd i lety priodol pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa.

Aelodaeth

Mae aelodaeth y Grŵp yn un eang ac mae'n cynnwys adrannau Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau allanol.

Ymhlith yr adrannau sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y Grŵp y mae'r Is-adran Polisi Tai, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, yr Adran Addysg a Sgiliau, a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r sefydliadau allanol yn cynnwys llywodraeth leol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Prawf Cymru, Heddlu De Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a sefydliadau yn y trydydd sector, gan gynnwys Shelter Cymru, *Rough Sleepers* Cymru, Cymorth Cymru a Gofal Cymru.

Y trafodaethau hyd yma

Mae'r Grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma, ac mae'n bwriadu cynnal ei drydydd cyfarfod ar 21 Chwefror. Mae'r trafodaethau wedi bod yn rhai hynod gadarnhaol ac mae pob sefydliad wedi gwneud ymrwymiad cadarn i wella ar y trefniadau presennol. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar y prif ffactorau sy'n atal cyn garcharorion rhag cael yr un lefel o wasanaeth a chymorth â phobl sydd heb droseddu, a bydd yn gweithredu yn hynny o beth, gan gynnwys sefydlu prosiectau peilot.

Bod yn agored i niwed

Bu trafod eang ar sefyllfa cyn garcharorion o ran bod yn agored i niwed, a hefyd ar y bwriad i ddileu eu statws angen blaenoriaethol. Mae gwahaniaeth barn o fewn y Grŵp ynglŷn â diwygio'r diffiniad o angen blaenoriaethol – mae rhai sefydliadau o blaid hynny, ac eraill yn bryderus iawn am y newid arfaethedig. Mae cytundeb ymhlith aelodau'r Grŵp nad yw pob cyn garcharor, o reidrwydd, yn bodloni'r meini prawf o ran bod yn agored i niwed, ond yn achos y rheini sydd yn bodloni'r meini prawf hynny, bod angen sicrhau bod llety priodol a chymorth perthnasol ar gael iddynt fel rhan o broses ailsefydlu diogel. Cydnabyddir ei bod yn bosibl bod angen gwasanaethau tai a chyngor ar dai ar bob carcharor ac, os felly, bod y cyngor hwnnw a'r gwasanaethau hynny yn gallu bod o fudd iddynt.

Mae aelodau'r Grŵp yn dra ymwybodol hefyd o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r prawf a ddefnyddir i asesu a yw pobl yn agored i niwed ai peidio, ac mae cytundeb yn eu plith bod y cysyniad o fod yn agored i niwed yn un hynod anodd ei ddiffinio mewn cyfraith ac yn ymarferol.

Yn ôl cyfraith achosion (prawf Pereira), yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a yw unigolyn yn agored i niwed ai peidio, gan wneud hynny yn unol â chyfraith achosion. Mae'r rheini sy'n cynrychioli'r sector llywodraeth leol yn cydnabod bod cryn amrywiaeth ledled Cymru o ran sut y diffinnir person sy'n agored i niwed. Mae'r Grŵp yn ei gyfanrwydd yn cydnabod hefyd y gallai cynnwys rhestr benodol o gategorïau o bobl sy'n agored i niwed ar wyneb y Bil Tai arwain at system yr un mor ddiffygiol, lle byddai unigolion, o bosibl, yn cael eu diffinio'n bobl agored i niwed oherwydd eu hoedran neu hyd eu dedfryd, er enghraifft, yn hytrach nag ar sail eu hanghenion unigol a'u/neu eu hamgylchiadau. Mae'r Grŵp yn ymwybodol bod angen sicrhau dull cyson o weithredu ym mhob ardal ac mae'n ystyried ffyrdd o gyflawni hynny, gan gynnwys gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol.

Mae menywod sydd yn y ddalfa y tu allan i Gymru yn destun pryder i'r Grŵp, ac felly hefyd bob carcharor sydd â phlentyn neu blant dibynnol. Cytunwyd mai'r carcharorion hynny ddylai gael blaenoriaeth wrth geisio dod o hyd i atebion ymarferol ac effeithiol. Yn yr un modd, cydnabyddir bod angen edrych ar hyd y dedfrydau a roddir i garcharorion a chanfod ffyrdd gwell o gadw llety ar gyfer y rheini sy'n cael dedfrydau byrrach. Nodir hefyd fod llety sefydlog yn hollbwysig o ran sicrhau triniaeth lwyddiannus i bobl sydd am roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau. Mae llawer gormod o'r bobl sydd yn y grŵp hwnnw yn gyn garcharorion.

Bydd y Gweithgor yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r Cod Canllawiau, sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan y Gweithgor Gweinidogol.

<u>Cyflwyno Gwelliannau o ran Ailsefydlu Carcharorion</u>

Mae sut i ddiffinio a yw pobl yn agored i niwed ai peidio yn fater y mae'r Grŵp yn parhau i'w ystyried, ond mae hefyd wedi dechrau edrych ar ffyrdd o wella'r modd yr eir ati i ailsefydlu carcharorion.

Mae'r aelodau'n gytûn bod angen sawl math o gymorth ar y rhan fwyaf o gyn garcharorion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hailsefydlu'n llwyddiannus. Mae'r cymorth hwnnw'n amrywio o ymyriadau ar lefel gymharol isel, megis cyfeirio, i gymorth dwys ar ffurf gwaith achos ar gyfer y rheini sydd â nifer o broblemau cymhleth. O'r herwydd, rhaid i'r system asesu, atgyfeirio a chymorth fod yn un sy'n cael ei darparu mewn ffordd gydlynol ac integredig, gan fanteisio ar sgiliau arbenigol nifer o gyrff statudol ac anstatudol a sefydliadau yn y trydydd sector.

Daeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau'r Grŵp bod tystiolaeth anecdotaidd o gydweithredu anffurfiol, sy'n gweithio'n dda, mewn rhannau o Gymru. Ond wedi dweud hynny, mae cryn anghysondeb hefyd. Mae nifer o resymau gwahanol dros hynny, ond mae ymrwymiad cadarn i'r nod o sicrhau bod sefydliadau'n gweithio mewn ffordd fwy integredig, gan hoelio'u sylw ar anghenion unigolion sy'n eu cael eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd llwyddiant yn hyn o beth yn dibynnu ar gydweithio agosach rhwng carchardai a llywodraeth leol wrth ailsefydlu carcharorion. Mae'n bwysig hefyd fod sefydliadau yn y trydydd sector yn chwarae mwy o ran yn hyn o beth. Mae'r Gweithgor wedi mynd ati yn gynnar yn y broses i gomisiynu gwaith i fapio hyd a lled y gwaith a'r datblygiadau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Bydd hynny'n fodd i nodi arferion da ac atebion posibl ar lefel Cymru gyfan, a bydd hefyd yn tynnu sylw at faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella'r trefniadau presennol.

Un o'r awgrymiadau a ddeilliodd o'r trafodaethau oedd y byddai un pwynt cyswllt, a fyddai'n gweithredu mewn ffordd gwbl gyson, ar gyfer y ddau awdurdod lleol ar hugain yn bwysig er mwyn rheoli prosesau ailsefydlu'n llwyddiannus. O ran datblygiadau yn y dyfodol, mae'r agenda

"Gweddnewid Ailsefydlu" (drwy'r Bil Ailsefydlu Troseddwyr a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU) yn gyfle i wella'r ddarpariaeth bresennol, a hynny yn sgil sefydlu Cwmni Ailsefydlu Cymunedol yng Nghymru, a'r ffaith mai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n gyfrifol am garcharorion pan gânt eu rhyddhau.

Gŵyr aelodau'r Grŵp fod niferoedd sylweddol o garcharorion yn mynd drwy'r system bob mis ac maent yn gwybod hefyd am ba hyd, ar gyfartaledd, y mae'r carcharorion hynny yn y ddalfa. Mae hynny'n hoelio sylw ar yr angen i sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol yn mynd ati cyn gynted ag y bo modd i gydgysylltu'r gwaith o gynllunio'r broses ailsefydlu, a hynny er mwyn sicrhau bod llety a'r gwasanaethau perthnasol yn eu lle er mwyn helpu i ailsefydlu'r unigolyn. Un o'r ffactorau eraill sy'n cael ei anghofio yw'r ffaith ei bod weithiau'n anodd annog carcharorion i gymryd rhan lawn yn y broses ailsefydlu, a hynny oherwydd eu bod, o bosibl, yn agored i niwed. Gall fod rhesymau eraill hefyd dros eu cyndynrwydd i wneud hynny. Dylai'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r agenda Gweddnewid Ailsefydlu helpu i sicrhau bod mwy o gyfle i gyn garcharorion fod yn gyfrifol am y camau sydd angen eu cymryd er mwyn eu hailsefydlu eu hunain – rhywbeth sydd hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant yn hynny o beth.

<u>Y sefyllfa bresennol mewn carchardai</u>

Mae gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr set o ddisgwyliadau sylfaenol, sef y "ddarpariaeth ailsefydlu graidd", ar gyfer y gwasanaethau ailsefydlu a gynigir yn y ddalfa. Rhaid i'r ddarpariaeth honno fod ar gael i bob carcharor.

Mae'r ddarpariaeth graidd hon yn cynnwys y cyfle i fanteisio ar wybodaeth neu ar wasanaethau a all helpu carcharorion i ymdopi â'r effaith y mae bod yn y carchar wedi'i chael arnynt, a hefyd i fynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'u troseddu. Bernir bod gwasanaethau o'r fath yn rhan gwbl hanfodol o system garcharu ddiogel, gyfreithlon a boddhaol. Mae'r lefel sylfaenol o wasanaethau yn cael ei diffinio yn y fanyleb ac mae'n ofynnol i Lywodraethwyr weithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau allweddol er mwyn bod mor effeithlon â phosibl, gan alluogi carcharorion i fanteisio ar wasanaethau'r brif ffrwd pryd bynnag y bo modd.

Mae problemau tai'n codi pan fo pobl yn cael eu carcharu, ac mae carchardai yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau hynny drwy sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau cyngor a gwybodaeth tai ag a fyddai ar gael iddynt yn y gymuned. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau tai lleol a darparwyr tai eraill. Dyma'r elfennau allweddol sy'n cael blaenoriaeth yn y ddarpariaeth graidd y dylai carchardai ei chynnig i bob carcharor:

- Sicrhau bod llety addas ar gael ar eu cyfer pan gânt eu rhyddhau
- Cynorthwyo carcharorion i ddod â thenantiaethau i ben neu i drefnu bod tenantiaethau'n parhau tra byddant yn y carchar, os yw hynny'n briodol.

Yn ogystal, mae rheidrwydd ar Lywodraethwyr Carchardai i sicrhau:

- Bod anghenion tai pob carcharor, gan gynnwys y rheini sydd ar remánd, yn cael eu hasesu cyn i'w pedwar diwrnod cyntaf yn y ddalfa ddod i ben, gan ddefnyddio'r dull Asesu Anghenion Tai Cychwynnol neu ddull sy'n cofnodi'r un wybodaeth.

- Bod pob carcharor yn cael cymorth i ddod â thenantiaethau i ben neu i gynnal tenantiaethau sydd mewn perygl, ac i wneud trefniadau i hysbysu landlordiaid, cwmnïau morgeisi ac yswiriant (lle bo hynny'n briodol) am eu hamgylchiadau presennol.

- Bod y ffurflenni priodol ar gael i'r carcharorion hynny y mae angen iddynt gadw budd-daliadau tai, neu ddod â nhw i ben tra byddant yn y ddalfa.

Mae'r ddogfen *Prison Service Order 2350: Housing Needs and Assessment* yn amlinellu'r broses y dylid ei defnyddio i gynnal asesiad o anghenion tai pob carcharor newydd sy'n cael ei gadw mewn carchar lleol, ac yn nodi hefyd fod gofyn cynnal yr asesiad hwnnw cyn i'w bedwar diwrnod cyntaf yn y ddalfa ddod i ben.

O dan y Gorchymyn hwn, sydd wedi bod yn weithredol er 2005, mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal gan aelod staff dynodedig neu weithiwr cyngor tai. Ei ddiben yw gweld a oes unrhyw faterion tai y mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith, ac asesu a fydd angen unrhyw ymyriadau o ran tai yn y dyfodol. Y nod yw cynorthwyo carcharorion yn nyddiau cynnar eu dedfryd er mwyn lleihau'r risg o golli llety, y risg o ôl-ddyledion rhent, ac o gael anhawster wrth hawlio budd-daliadau tai unwaith eto yn y dyfodol. Mae'r asesiad hefyd yn cadarnhau cyfeiriad y carcharor, gan gynnwys Heb Gartref Sefydlog (lle defnyddir cyfeiriad y llys a anfonodd yr unigolyn i'r carchar).

Un o egwyddorion canolog y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yw rheoli troseddwyr mewn modd cyson, adeiladol a chydlynol drwy gydol eu dedfryd.

Er mwyn helpu i ailsefydlu carcharorion yn llwyddiannus, mae yna nifer o fentrau amlasiantaeth penodol sy'n seiliedig ar y dull gweithredu sy'n cael ei arfer o dan Fframwaith Integredig Cymru ar gyfer Rheoli Troseddwyr. Mae'r dull gweithredu hwnnw'n canolbwyntio'n benodol ar helpu troseddwyr benywaidd i beidio ag aildroseddu.

<u>Prison Link Cymru</u>

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido ac yn rheoli gwasanaeth *Prison Link Cymru* mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn, sy'n cael ei ddarparu gan Grŵp Tai Gwalia a Shelter Cymru, yn ychwanegu at y gwasanaethau sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion o ran tai.

<u>Materion Cyfredol</u>

Mae arwyddion bod rhoi statws angen blaenoriaethol i gyn garcharorion sy'n ddigartref wedi arwain at lai o gyswllt cynnar, ac at lai o gyswllt yn gyffredinol, rhwng carchardai a chymdeithasau tai o ran cynllunio a rheoli llety ailsefydlu. Er enghraifft, mewn rhai achosion, pan fo cyn garcharorion yn cael eu rhyddhau, rhaid iddynt fynd i'r Adran Dai cyn y gellir darparu llety brys ar eu cyfer. Cydnabyddir bod gwell trefniadau i rannu gwybodaeth ac i gynllunio, a hefyd gwneud hynny'n gynt, yn helpu i leihau'r angen am lety brys ar y diwrnod y caiff carcharor ei ryddhau. Mae hwn yn fater y mae'r Gweithgor yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

<u>Datblygiadau yn y Dyfodol</u>

Dylid nodi mai un o'r datblygiadau o dan yr agenda Gweddnewid Ailsefydlu fydd carchardai ailsefydlu dynodedig. Os na fydd carcharorion mewn carchar sy'n agos i'r man lle byddant yn cael eu hailsefydlu, bydd modd iddynt dreulio tri mis olaf eu dedfryd yn nes i'r man hwnnw. Dylai hynny sicrhau y bydd modd i sefydliadau eraill gydweithio'n agosach â'r carchardai hynny.

<u>Camau Gweithredu</u>

Bydd y Grŵp yn mynd ati yn ei gyfarfod nesaf (21 Chwefror 2014) i drafod newidiadau sydd ar droed i bolisïau ac i ddeddfwriaeth.

Mae'r Bil Tai yn cynnig y dylid newid y prawf ar gyfer cyn garcharorion, ac mae hynny'n destun pryder i rai o aelodau'r Grŵp. Os caiff statws blaenoriaethol ei ddileu, maent yn cydnabod y bydd yn rhaid i bartneriaid gydweithio hyd yn oed yn agosach, yn hytrach na dibynnu ar y ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol i ddarparu llety am fod statws angen blaenoriaethol yn cael ei roi i unigolion yn awtomatig. Mae'r newidiadau polisi ym maes iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol, a'r diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno o dan yr agenda Gweddnewid Ailsefydlu, yn gyfle unigryw i ddatblygu system holistaidd o gymorth i helpu i ddiwallu anghenion pob carcharor o ran tai, gan gynnwys y rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r Grŵp yn rhoi sylw penodol i garcharorion sy'n agored i niwed. Er hynny, mae'n sylweddoli bod tai yn berthnasol i bob carcharor a'u bod yn un o'r ffactorau sy'n bwysig er mwyn ailsefydlu carcharorion yn llwyddiannus ac mewn modd cynaliadwy.

Dyma rai o'r camau gweithredu arfaethedig:

1. Mapio'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau presennol er mwyn nodi pa systemau cymorth sydd yn eu lle, ble mae bylchau a pha ddatblygiadau pellach sydd eu hangen (erbyn diwedd Mawrth 2014).

2. Digwyddiadau datblygu a fydd yn sail i'r gwaith o gryfhau'r llwybrau llety newydd ar gyfer cyn garcharorion (erbyn diwedd Ebrill 2014).

3. Cynnal prosiect peilot yn Lloegr er mwyn helpu menywod sy'n garcharorion i fanteisio ar wasanaethau atal cyn iddynt gael eu rhyddhau (erbyn diwedd Medi 2014).

4. Prosiect peilot i roi prawf ar fodelau cymorth gwahanol ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd atal mewn perthynas â charcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau (erbyn diwedd Medi 2014).

5. Cyfrannu at ddatblygu canllawiau statudol, yn benodol y bennod ar roi cymorth i gyn garcharorion (erbyn diwedd Hydref 2014).

**Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol - Terfynol**
**Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig- crynodeb o'r polisi ar rent- rhenti wedi'u codi ar gyfer 2014-15 (CPI + 1.5% ar gyfer y ddau sector)**

| Cymdeithas Tai | Rhenti cyn polisi SAP (£ yr wythnos) | Sgôr SAP (2012-13) | Addasiadau yn sgil SAP (£ yr wythnos) | Addasiadau yn sgil SAP (y cant) | Rhenti ar ôl polisi SAP (£ yr wythnos) | Bandiau rhnt targed ar ôl SAP, 2014-15: Pen isel (£ yr wythnos) | Pwynt canol (£ yr wythnos) | Pen uchel (£ yr wythnos) | Stoc ar 31 Mawrth 2013 (unedau) | Rhent gwirioneddol cyfartalog, 2013-14 (£ yr wythnos) | Rhent cyfartalog, wedi'i uwchraddio i 2014-15 (£ yr wythnos) | O'i gymharu â band targed 2014-15 (is / uwch) | Swm uwch neu is £ | Swm uwch neu is Y cant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tai Aelwyd | 63.90 | 75.1 | 1.93 | 3.0% | 65.83 | 62.54 | 65.83 | 69.12 | 243 | 65.89 | 68.66 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 74.65 | 67.0 | 0.45 | 0.6% | 75.10 | 71.35 | 75.10 | 78.86 | 790 | 73.23 | 76.31 | O fewn | . | . |
| Tai Cymuned Bron Afon | 78.72 | 72.2 | 1.69 | 2.1% | 80.41 | 76.39 | 80.41 | 84.43 | 7,093 | 75.10 | 78.25 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | 82.08 | 74.0 | 2.22 | 2.7% | 84.29 | 80.08 | 84.29 | 88.51 | 1,248 | 78.91 | 82.22 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd | 84.84 | 71.2 | 1.58 | 1.9% | 86.42 | 82.10 | 86.42 | 90.75 | 2,605 | 77.52 | 80.78 | Is | -1.33 | -2% |
| Cartrefi Conwy | 76.06 | 70.8 | 1.32 | 1.7% | 77.38 | 73.51 | 77.38 | 81.25 | 3,757 | 74.66 | 77.80 | O fewn | . | . |
| Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 79.21 | 62.1 | -1.17 | -1.5% | 78.04 | 74.14 | 78.04 | 81.94 | 6,291 | 69.03 | 71.93 | Is | -2.21 | -3% |
| Charter Housing Association | 79.70 | 74.0 | 2.15 | 2.7% | 81.85 | 77.75 | 81.85 | 85.94 | 4,155 | 80.07 | 83.43 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Clwyd Alun | 79.20 | 70.0 | 1.19 | 1.5% | 80.39 | 76.37 | 80.39 | 84.41 | 3,655 | 77.73 | 80.99 | O fewn | . | . |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coastal Housing Group | 71.91 | 73.2 | 1.76 | 2.5% | 73.68 | 69.99 | 73.68 | 77.36 | 4,296 | 75.15 | 78.31 | Uwch | 0.94 | 1% |
| Cymdeithas Tai Cantref | 79.54 | 70.0 | 1.19 | 1.5% | 80.73 | 76.69 | 80.73 | 84.77 | 1,334 | 71.52 | 74.52 | Is | -2.17 | -3% |
| Cymdeithas Tai Clwyd | 80.43 | 69.0 | 0.97 | 1.2% | 81.39 | 77.32 | 81.39 | 85.46 | 1,664 | 74.22 | 77.34 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Eryri | 76.86 | 69.0 | 0.93 | 1.2% | 77.79 | 73.90 | 77.79 | 81.68 | 1,423 | 70.86 | 73.84 | Is | -0.06 | 0% |
| Grŵp Tai Cymunedol Cynon-Taf | 72.45 | 67.0 | 0.43 | 0.6% | 72.89 | 69.24 | 72.89 | 76.53 | 1,830 | 73.39 | 76.47 | O fewn | . | . |
| Family Housing Association (Cymru) | 73.91 | 73.5 | 1.88 | 2.5% | 75.79 | 72.00 | 75.79 | 79.58 | 2,219 | 79.53 | 82.87 | Uwch | 3.29 | 4% |
| Grŵp Tai Gwalia | 74.66 | 75.0 | 2.24 | 3.0% | 76.90 | 73.06 | 76.90 | 80.75 | 4,557 | 77.47 | 80.72 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Hafod | 80.40 | 76.1 | 2.67 | 3.3% | 83.07 | 78.91 | 83.07 | 87.22 | 3,430 | 79.29 | 82.62 | O fewn | . | . |
| Linc Cymru | 79.22 | 73.2 | 1.96 | 2.5% | 81.18 | 77.12 | 81.18 | 85.24 | 3,088 | 80.74 | 84.13 | O fewn | . | . |
| Melin Homes | 75.85 | 73.5 | 1.93 | 2.5% | 77.78 | 73.89 | 77.78 | 81.67 | 2,778 | 77.91 | 81.18 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 70.39 | 70.0 | 1.06 | 1.5% | 71.44 | 67.87 | 71.44 | 75.02 | 1,008 | 74.62 | 77.75 | Uwch | 2.74 | 4% |
| Merthyr Valleys Homes | 74.96 | 68.6 | 0.81 | 1.1% | 75.77 | 71.98 | 75.77 | 79.56 | 4,185 | 65.92 | 68.69 | Is | -3.29 | -5% |
| Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru | 75.95 | 68.0 | 0.68 | 0.9% | 76.63 | 72.80 | 76.63 | 80.46 | 1,291 | 76.56 | 79.78 | O fewn | . | . |
| Tai Sir Fynwy | 82.38 | 72.9 | 1.95 | 2.4% | 84.32 | 80.11 | 84.32 | 88.54 | 3,613 | 77.94 | 81.21 | O fewn | . | . |
| Cartrefi Dinas Casnewydd | 78.61 | 67.7 | 0.64 | 0.8% | 79.25 | 75.29 | 79.25 | 83.21 | 8,980 | 76.12 | 79.32 | O fewn | . | . |
| Ymddiriedolaeth Tai Casnewydd | 79.78 | 75.6 | 2.54 | 3.2% | 82.32 | 78.20 | 82.32 | 86.43 | 426 | 81.71 | 85.14 | O fewn | . | . |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tai Newydd | 78.75 | 73.0 | 1.89 | 2.4% | 80.64 | 76.60 | 80.64 | 84.67 | 2,392 | 76.18 | 79.38 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | 77.88 | 71.6 | 1.55 | 2.0% | 79.43 | 75.46 | 79.43 | 83.40 | 1,873 | 75.69 | 78.87 | O fewn | . | . |
| NPT Homes | 76.86 | 62.5 | -0.98 | -1.3% | 75.88 | 72.09 | 75.88 | 79.68 | 8,983 | 75.41 | 78.58 | O fewn | . | . |
| Cymdeithas Tai Sir Benfro | 78.49 | 73.0 | 1.88 | 2.4% | 80.37 | 76.36 | 80.37 | 84.39 | 2,071 | 76.92 | 80.15 | O fewn | . | . |
| RCT Homes | 72.96 | 73.0 | 1.75 | 2.4% | 74.71 | 70.98 | 74.71 | 78.45 | 10,102 | 76.70 | 79.92 | Uwch | 1.47 | 2% |
| Cymdeithas Tai Rhondda | 72.89 | 67.0 | 0.44 | 0.6% | 73.32 | 69.66 | 73.32 | 76.99 | 1,479 | 74.47 | 77.60 | Uwch | 0.61 | 1% |
| Cymdeithas Tai Taf | 84.74 | 76.5 | 2.92 | 3.4% | 87.66 | 83.28 | 87.66 | 92.05 | 886 | 84.13 | 87.66 | O fewn | . | . |
| Tai Cymunedol Tai Calon | 72.12 | 63.8 | -0.44 | -0.6% | 71.68 | 68.10 | 71.68 | 75.27 | 6,176 | 64.84 | 67.56 | Is | -0.54 | -1% |
| Tai Ceredigion | 80.23 | 66.0 | 0.24 | 0.3% | 80.47 | 76.44 | 80.47 | 84.49 | 2,224 | 69.95 | 72.89 | Is | -3.56 | -5% |
| Cymdeithas Tai Unedig Cymru | 76.90 | 78.2 | 3.05 | 4.0% | 79.95 | 75.95 | 79.95 | 83.94 | 3,539 | 79.52 | 82.86 | O fewn | . | . |
| Tai Cymoedd i'r Arfordir | 76.89 | 74.7 | 2.23 | 2.9% | 79.11 | 75.16 | 79.11 | 83.07 | 5,736 | 76.41 | 79.62 | O fewn | . | . |
| Tai Cymru a'r Gorllewin | 76.66 | 73.0 | 1.84 | 2.4% | 78.50 | 74.58 | 78.50 | 82.43 | 8,070 | 77.68 | 80.94 | O fewn | . | . |
| *Lleiafswm* | *63.90* | *62.1* | *-1.17* | *-1.5%* | *65.83* | *62.54* | *65.83* | *69.12* | | *64.84* | *67.56* | Is | | 7 |
| *Uchafswm* | *84.84* | *78.2* | *3.05* | *4.0%* | *87.66* | *83.28* | *87.66* | *92.05* | | *84.13* | *87.66* | O fewn | | 25 |
| *Cyfanswm* | | | | | | | | | | | | Uwch | | 5 |

*Ffynhonnell: Model Rhent Cymdeithasol Llywodraeth Cymru*